

Arolygiad o Bractis Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Bae Cinmel, Bwrdd
Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad arolygu: 25 Medi 2018

Dyddiad cyhoeddi: 27 Rhagfyr
2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu

**Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@gov.wales
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk**

Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym.....	7
	Ansawdd profiad y claf	9
	Darparu gofal diogel ac effeithiol	17
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	21
4.	Beth nesaf?	23
5.	Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu.....	24
	Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	25
	Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol.....	26
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	28

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn rydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn meithrin partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gymesur.

Ein blaenoriaethau

Trwy ein gwaith ein nod yw:

Rhoi sicrwydd:

Cynnig barn annibynnol ar ansawdd gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy lunio adroddiadau a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn rydym yn ei ganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Bae Cinmel, ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, ar 25 Medi 2018.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys un o reolwyr arolygu AGIC (arweinydd yr arolygiad), adolygwyr cymheiriaid meddygon teulu a rheolwyr practis ac adolygwr lleyg.

Edrychodd AGIC ar y ffordd yr oedd y gwasanaeth yn bodloni'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Ceir rhagor o fanylion am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau o feddygon teulu yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

2. Crynodeb o'n harolygiad

Yn gyffredinol, gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth yn darparu gofal diogel ac effeithiol. Roedd camau priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mwyafrif helaeth o'r meysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt yn yr arolygiad blaenorol. Fodd bynnag, gwelsom beth dystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llawn â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Nodwyd gennym fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Wedi mynd i'r afael â'r rhan fwyaf o'r meysydd i'w gwella a nodwyd yn ystod yr arolygiad blaenorol
- Cadw cofnodion
- Rheoli meddyginiaeth a chymorth fferylliaeth
- Cefnogaeth a goruchwyliaeth i'r staff
- Dull gweithredu cynhwysol a chyfathrebu da
- Blaengynllunio.

Argymhellwn y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Y gallu i gael apwyntiadau ac ateb galwadau ffôn
- Rhai agweddau ar yr amgylchedd
- Datblygu'r wefan
- Enwebu Hyrwyddwr Gofalwyr

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Cefndir y gwasanaeth

Mae Meddygfa Bae Cinmel yn darparu gwasanaethau i tua 7,000 o gleifion yn ardaloedd Bae Cinmel, Tywyn, Pensarn, Belgrano a Bodelwyddan o Gonwy a Sir Ddinbych. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau meddyg teulu a ddarperir yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Mae tîm staff y practis yn cynnwys pedwar meddyg teulu sy'n bartner, un meddyg teulu wrth gefn¹, tair nyrs practis, un cynorthwydd gofal iechyd, staff derbynfa/gweinyddol ac un rheolwr practis. Roedd y practis hefyd yn hyfforddi meddygon mewn practis cyffredinol ac roedd cofrestrwydd mewn practis cyffredinol yn rhan o'r tîm yn rheolaidd.

Mae'r practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Cyngor a thriniaethau iechyd cyffredinol
- Rheoli diabetes
- Gofal cynenedigol
- Rheoli clefydau cardiofasgwlaidd
- Imiwneiddio a datblygiad plant
- Rheoli Asthma a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD)
- Aciwbgiad
- Clefyd cronig yn yr arennau
- Cryotherapi

¹ Bwriedir i'r Cynllun Meddyg Teulu wrth Gefn roi cymorth byrdymor i feddygon teulu sydd am ymrwymadau teulu neu broblemau iechyd sy'n cyfyngu ar eu gallu i weithio mewn Practis Cyffredinol yn y ffordd arferol fel partneriaid neu feddygon teulu cyflogedig.

- Archwiliadau meddygol wrth gofrestru
- Sgrinio serfigol
- Coiliau a mewnbaniadau atal cenhedlu
- Brechiadau gwyliau
- Mân lawdriniaethau
- Fflebotomi.

Arolygwyd y practis ddiwethaf gan AGIC ym mis Chwefror 2016. Mae'n braf nodi bod camau gweithredu priodol wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r mwyafrif helaeth o'r meysydd i'w gwella y tynnwyd sylw atynt yn ystod yr arolygiad blaenorol a dylid canmol y staff yn y practis am ymgymryd â'r gwaith hwn ar adeg pan oedd y practis yn wynebu problemau difrifol o ran staffio meddygon a oedd y tu hwnt i'w reolaeth. Yr unig broblemau sydd heb eu datrys yw'r rhai sy'n ymwneud ag agweddau ar yr amgylchedd. Manylir ar y rhain yng nghorff yr adroddiad hwn.

Ansawdd profiad y claf

Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) er mwyn sicrhau bod safbwynt y claf yn ganolog i'n dull o arolygu.

Dywedodd cleifion wrthym fod y staff yn eu trin ag urddas a pharch. Roedd gan y practis system ar waith i alluogi cleifion i godi pryderon a gwneud cwynion ac roedd y practis yn gallu dangos bod adborth gan gleifion yn cael ei ystyried er mwyn gwella gwasanaethau.

Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan gleifion, yn enwedig am eu cydberthnasau â'r staff.

Cyn ein harolygiad, gwahoddwyd y practis i ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Ar ddiwrnod yr arolygiad, siaradodd ein harolygwyr â chleifion hefyd er mwyn cael gwybod am eu profiadau yn y practis.

Derbyniwyd cyfanswm o 31 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn gleifion hirdymor yn y practis (wedi bod yn glaf ers dros ddwy flynedd).

Yn yr holiadur gofynnwyd i'r cleifion roi gradd i'r gwasanaeth a ddarperir gan y practis meddygon teulu hwn. Cafwyd ymatebion cadarnhaol; dywedodd ychydig dros dri chwarter y cleifion fod y gwasanaeth naill ai'n 'ardderchog' neu'n 'dda iawn'. Dywedodd y cleifion wrthym:

“Mae pob un o'r meddygon yn drylwyr a phroffesiynol iawn bob amser. Mae pob apwyntiad rwyf wedi bod iddo wedi bod ar amser”

“Mae'r meddygon a'r nyrsys yn ofalgar iawn. Mae staff y dderbynfa'n barod iawn i helpu”

“Mae'r meddygon yn 'gwrando' ar y claf a byth yn rhuthro ymgynghoriad. Maen nhw'n esbonio'r canfyddiadau'n glir ac yn rhoi cyngor ar feddyginiaeth. Dydy'r meddygon byth yn rhuthro penderfyniadau. Mae staff y dderbynfa'n gwrtais iawn, yn barod i helpu ac yn ceisio diwallu anghenion y claf bob amser”

Yn yr holiaduron, gofynnwyd i'r cleifion sut y gallai'r practis wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddo. Cododd nifer o gleifion rai materion cyffredin gyda ni, yn enwedig anawsterau wrth drefnu apwyntiad yn y practis. Ymysg y gwelliannau eraill a awgrymwyd roedd y canlynol:

“Drwy allu trefnu apwyntiadau ar gyfer y dyfodol yn hytrach na thrwy ffonio am 8.30am”

“Mwy o linellau ffôn, mwy o staff ar y cownter ar adegau prysur”

Cadw'n iach

Dyweddodd cleifion wrthym fod y staff yn siarad â nhw ac yn eu helpu i ddeall eu cyflyrau meddygol.

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain gan fod y staff yn rhoi cyngor iddynt ar sut i hybu eu hiechyd ac roedd gwybodaeth ysgrifenedig ar gael yn yr ardal aros. Roedd staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant ar gyfeirio cleifion at weithwyr proffesiynol a sefydliadau eraill sydd mewn gwell sefyllfa i'w helpu er mwyn lliniaru'r pwysau ar y staff clinigol yn y practis.

Roedd pobl â chyfrifoldebau gofalu wedi cael eu nodi a rhoddwyd cyngor a gwybodaeth iddynt am sefydliadau a gwasanaethau eraill a allai fod o gymorth iddynt. Gwnaethom awgrymu y dylid ystyried enwebu aelod o'r staff yn Hyrwyddwr Gofalwyr a fyddai'n helpu i nodi gofalwyr ac yn gweithredu fel llais y gofalwyr yn y practis bod yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer gwybodaeth i ofalwyr.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried enwebu aelod o staff yn Hyrwyddwr Gofalwyr.

Gofal gydag urddas

Yn ddieithriad, roedd pawb ond un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan staff y practis.

Dyweddod tua dau o bob tri chlaf a gwblhaodd holiadur wrthym mai dim ond 'weithiau' y gallent weld eu dewis feddyg. Ni wyddom p'un a yw hyn yn berthnasol i apwyntiadau brys neu apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys.

Gwelsom y staff yn cyfarch pobl mewn ffordd broffesiynol ond cyfeillgar wrth ddesg y dderbynfa ac yn ystod sgysiau ffôn.

Gwnaethom ystyried yr amgylchedd ffisegol a chanfuom fod cyfrinachedd a phreifatrwydd y cleifion wedi cael eu hystyried a bod yr amgylchedd ffisegol wedi cael ei addasu, i'r graddau sy'n bosibl. Dywedodd staff y dderbynfa wrthym fod galwadau ffôn yn cael eu cymryd i ffwrdd o brif ardal y dderbynfa ac y gallent ddefnyddio un o'r ystafelloedd ymgynghori, os oedd un ar gael, i drafod unrhyw faterion sensitif â chleifion, pe bai angen.

Roedd y drysau i ystafelloedd ymgynghori a thriniaeth unigol yn cael eu cadw ar gau pan roedd y staff yn gweld cleifion. Roedd sgriniau ar gael hefyd o amgylch gwelyau archwilio. Roedd hyn yn golygu bod y staff yn cymryd camau priodol i gynnal preifatrwydd ac urddas cleifion yn ystod apwyntiadau.

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar ddefnyddio hebryngwyr. Roedd yr hawl i ofyn am hebryngwr wedi'i hysbysebu ar ffurf posteri yn yr ardal aros ac yn yr ystafelloedd triniaeth/ymgynghori.

Gwybodaeth i gleifion

Fel y soniwyd eisoes, roedd taflenni gwybodaeth ar gael i gleifion am faterion yn ymwneud ag iechyd yn yr ardal aros. Roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth am grwpiau cymorth lleol, cyngor ar hybu iechyd a rheoli hunanofal ar gyfer cyflyrau sy'n ymwneud ag iechyd. Roedd stondin taflenni penodedig yn cynnwys gwybodaeth yn benodol i ofalwyr yng nghyntedd y brif fynedfa. Gwnaethom argymhell y gellid gwella gwefan y practis drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol am reoli cyflyrau hirdymor a chynnig cyngor i'r cleifion ar eu salwch a'u cyfeirio at adnoddau a sefydliadau eraill sydd ar gael i'w helpu.

Nodwyd gennym fod y practis yn ymdrechu i sicrhau bod y cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd y staff broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi mewn perthynas ag amser eu hapwyntiad.

Dyweddod mwy na thri chwarter y cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y byddent yn gwybod sut i gysylltu â'r gwasanaeth meddygon teulu y tu allan i oriau.

Roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis wedi'i hysbysebu ar wefan y practis, yn y daflen i gleifion ac ar yr hysbysiad wrth y brif fynedfa.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid gwella gwefan y practis drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol am reoli cyflyrau hirdymor, a chynnig cyngor i'r cleifion ar eu salwch a'u cyfeirio at adnoddau a sefydliadau eraill sydd ar gael i'w helpu.

Cyfathrebu'n effeithiol

Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn gallu siarad â'r staff yn eu dewis iaith bob amser.

Roedd y mwyafrif helaeth o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod pethau bob amser yn cael eu hesbonio iddynt yn ystod eu hapwyntiad mewn ffordd y gallent ei deall, a gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag y dymunent mewn penderfyniadau a wneir am eu gofal.

Dywedwyd wrthym mai prin iawn oedd y cleifion Cymraeg a oedd wedi'u cofrestru â'r practis. Fodd bynnag, gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod pobl yn cael gwasanaeth yn eu dewis iaith. Roedd gwasanaethau cyfieithu ar gael i bobl a oedd am gyfathrebu mewn ieithoedd eraill heblaw Saesneg. Gwnaethom argymhell y dylid cymryd camau i sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion a phosteri ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl.

Nid oedd gan y practis ddolen glywed i helpu'r cleifion hynny sydd ag anawsterau clywed i gyfathrebu. Gwnaethom argymhell y dylid ystyried darparu cyfleuster o'r fath.

Gwelsom fod prosesau cadarn ar waith i reoli gohebiaeth a dderbynnir gan y practis a bod gwybodaeth yn cael ei chofnodi'n briodol ar y system rheoli cofnodion electronig.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid cymryd camau i sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion a phosteri ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl.

Dylid ystyried darparu dolen glywed yn y practis er mwyn helpu'r cleifion hynny sydd ag anawsterau clywed i gyfathrebu.

Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd yr holiadur wrthym eu bod yn 'fodlon iawn' neu'n 'gymharol fodlon' ar oriau agor y practis. Fodd bynnag, gwnaeth y cleifion sôn yn yr holiaduron yr hoffent weld y practis ar agor yn hwyrach; ymysg y sylwadau roedd y canlynol:

“Agor tan 6pm er mwyn ei gwneud hi'n haws i bobl sy'n gweithio 9-5 o ddydd Llun i ddydd Gwener i gael gofal gan gynnwys profion sgrinio (prawf ceg y groth), adolygiadau asthma ac ati.”

“Aros ar agor yn hwyrach e.e. 8am - 8pm ac ystyried agor ar benwythnosau”

Pan ofynnwyd iddynt ddisgrifio eu profiad cyffredinol o drefnu apwyntiad, disgrifiodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu profiad fel un 'da iawn' neu 'da'. Fodd bynnag, dywedodd bron i hanner y cleifion a gwblhaodd yr holiadur ei bod 'ddim yn hawdd iawn' neu 'ddim yn hawdd o gwbl' cael apwyntiad pan oedd angen un arnynt. Cododd y cleifion bryderon yn yr holiaduron am yr anawsterau sy'n gysylltiedig â llwyddo i drefnu apwyntiad dros y ffôn, ac ynglŷn â'r system sydd ar waith ar gyfer apwyntiadau brys, lle bo cleifion yn sefyll mewn ciw y tu allan; dywedodd y cleifion wrthym:

“Mae angen mwy o linellau ffôn – mae'r llinell bob amser yn brysur a wedyn pan fydd rhywun yn ateb bydd yr apwyntiadau bob amser wedi mynd. Mwy o apwyntiadau ar gyfer y prynhawn”

“Mae'r system apwyntiadau'n wael iawn ond byddaf fel arfer yn cael apwyntiad ond mae'n ychydig o ras rwystrau. Des i yma am 7:55 y bore yma ac roedd 7 neu 8 o bobl o fy mlaen yn barod. Roedd tua 20-25 yn ciwio erbyn i'r feddygfa agor am 8.30. Yn y gorffennol rwyf wedi ceisio ffonio i drefnu apwyntiad ond wedi treulio hyd at 20 munud yn ail-ddeialu'n barhaus cyn cael ateb, a wedyn yn cael gwybod weithiau nad oedd unrhyw apwyntiadau ar ôl”

“Byddai noson hwyr yn dda ac nid yw aros y tu allan yn y glaw a'r oerfel yn beth da. Rhyw fath o system sy'n galluogi pobl i fynd o dan do gyda thocyn i giwio”

Gwelsom fod y cleifion yn gallu trefnu apwyntiadau nad ydynt yn rhai brys ymlaen llaw o ddydd Llun i ddydd Gwener. Roedd apwyntiadau brys, ar yr un diwrnod, ar gael hefyd.

Roedd y practis yn defnyddio cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein² ar gyfer presgripsiynau amlroddadwy a chanlyniadau profion. Fodd bynnag, nid oedd y cyfleuster hwn yn ymestyn i drefnu apwyntiadau. Dylid ystyried ymestyn cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein er mwyn galluogi'r cleifion i drefnu apwyntiadau'n electronig. Gallai hyn leihau'r pwysau ar y llinellau ffôn.

Mae'r tîm nyrsio yn gweld cleifion sydd â rhai mathau o fân salwch. Mae'r tîm nyrsio hefyd yn cynnal nifer o glinigau ar gyfer cleifion â chyflyrau iechyd cronig er mwyn eu galluogi i gael y gofal a'r driniaeth sydd eu hangen arnynt heb orfod gweld meddyg.

Roedd y cleifion yn y practis hefyd yn gallu cael gafael ar gymorth fferyllfa gyda thechnegydd fferyllfa a fferylllydd sy'n rhagnodi ar gael bron bob dydd. Roedd pobl o'r farn bod hon yn agwedd werthfawr ar y gwasanaeth, nid yn unig o ran gofal ac ymgynghori uniongyrchol i gleifion, ond hefyd o ran y cymorth a roddir i'r meddygon a'r nyrsys sy'n gweithio yn y practis.

Gwelsom fod atgyfeiriadau at arbenigwyr eraill yn cael eu gwneud mewn ffordd amserol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried ymestyn cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein er mwyn galluogi'r cleifion i drefnu apwyntiadau'n electronig.

Gofal unigol

Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

² <https://www.myhealthonline-inps.wales.nhs.uk/mh0l/home.jsp>

Roedd tîm y practis yn adnabod y cleifion yn dda ac yn gwneud addasiadau yn unol ag anghenion unigol pobl ar sail y wybodaeth hon.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn teimlo ei bod hi'n hawdd mynd i mewn i adeilad y practis.

Roedd y practis mewn adeilad pwrpasol. Roedd gan yr adeilad fynediad da i bobl anabl gyda nifer o leoedd parcio yn y maes parcio cyfagos. Fodd bynnag, roedd y bobl sy'n gweithio yn y practis o'r farn bod yr adeilad yn rhy fach a bod angen rhywfaint o waith adnewyddu arno. Yn benodol, roedd angen cadeiriau newydd yn yr ystafell aros. Roedd y cadeiriau i gyd o'r un uchder, wedi'u gosod mewn rhesi ac wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn grwpiau o 2, 3 a 4. Nid oedd gan unrhyw rai o'r cadeiriau freichiau (a all fod yn ddefnyddiol i bobl â phroblemau symudedd/trosglwyddo). Nid oedd unrhyw le ychwanegol i bobl sy'n defnyddio cadair olwyn ac roedd y lle i symud pram neu goets gadair rhwng y rhesi o gadeiriau yn gyfyngedig. Tynnwyd sylw at y mater hwn fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad blaenorol o'r practis. Rhoddwyd gwybod i ni bod cais am gyllid ychwanegol i brynu cadeiriau newydd wedi cael ei gyflwyno i'r bwrdd iechyd. Fodd bynnag, gwrthodwyd y cais hwn.

Roedd dau doiled o fewn yr ardal aros i'r cleifion eu defnyddio, a thoiled â mynediad i bobl anabl yn y coridor gerllaw'r ystafelloedd ymgynghori. Roedd y ddau doiled yn yr ardal aros yn fach iawn a gwnaethom awgrymu y dylai'r rhain gael eu newid, yn ystod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol, i ffurfio un toiled mawr â mynediad i bobl anabl.

Roedd pob un o ystafelloedd ymgynghori'r meddygon teulu a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori a'r ystafelloedd triniaeth yn fawr ac yn cynnwys adnoddau digonol.

Roedd rhan is, allan o'r golwg wrth ymyl desg y dderbynfa er mwyn i ddefnyddwyr cadair olwyn neu'r cleifion allu cynnal trafodaethau cyfrinachol â'r staff. Fodd bynnag, byddai defnyddwyr cadair olwyn yn ei chael hi'n anodd defnyddio'r rhan is hon oherwydd y pared sy'n ymwthio allan. Gwnaethom awgrymu y dylai rhan o brif ddesg y dderbynfa gael ei gostwng yn ystod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr cadair olwyn ei defnyddio.

Yr hyn sydd angen ei wella

Fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf, dylai'r practis gysylltu â'r bwrdd iechyd unwaith eto i gytuno ar ateb hirdymor i'r broblem ynglŷn â'r ffaith bod yr amgylchedd presennol yn anaddas, a hwyluso'r ateb hwnnw, o ystyried y ffaith

bod cynifer o gleifion a mwy o alw am y gwasanaeth.

Dylid ystyried gosod cadeiriau newydd yn yr ardal aros.

Yn ystod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol, dylid ystyried troi'r ddau doiled presennol i gleifion yn un toiled mawr â mynediad i bobl anabl.

Yn ystod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol, dylid ystyried gostwng rhan o ddesg y dderbynfa er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr cadair olwyn ei defnyddio.

Hawliau pobl

Roedd y practis wedi gwneud trefniadau i sicrhau bod gwasanaethau'n hygyrch i gleifion ag anghenion a gofynion iaith amrywiol, fel y disgrifir uchod.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chydaddoldeb ac amrywiaeth. Roedd protocol cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Gwrando a dysgu o adborth

Roedd gweithdrefn gwyno ffurfiol ar waith ac roedd gwybodaeth am sut i wneud cwyn wedi'i harddangos yn ardal y dderbynfa/yr ardal aros. Roedd poster i Gweithio i Wella³ ar gael yn yr ardal aros hefyd.

Rhoddwyd pwyslais ar ddelio â ffynhonnell unrhyw gwynion er mwyn datrys materion mor gyflym â phosibl ac osgoi'r angen i uwchgyfeirio. Roedd pob cwyn yn cael ei chofnodi p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig y'i derbyniwyd. Roedd pob cwyn yn cael ei dwyn i sylw rheolwr y practis a fyddai'n delio â nhw yn unol â pholisi'r practis.

³ Mae Gweithio i Wella yn broses o ymdrin â Chwynion, Honiadau a Digwyddiadau a elwir gyda'i gilydd yn "Bryderon". Mae hwn yn newid diwylliannol sylweddol i'r GIG yng Nghymru o ran y ffordd y mae'n ymdrin â phethau sy'n mynd o chwith, gan gyflwyno un dull cyson o raddio pryderon ac ymchwilio iddynt, yn ogystal â bod yn fwy agored a chynnwys y person sy'n codi'r pryder.

Darparu gofal diogel ac effeithiol

Ystyriwyd i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Gwelsom fod gan y practis drefniadau i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel i'w cleifion.

Roedd gwybodaeth ar gael i gleifion i'w helpu i gymryd cyfrifoldeb am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Roedd trefniadau addas ar waith i ragnodi meddyginiaethau'n ddiogel a dysgu o unrhyw ddigwyddiadau'n ymwneud â diogelwch cleifion. Roedd y sampl o gofnodion cleifion a archwiliwyd gennym o safon dda iawn ar y cyfan.

Roedd system gyfathrebu fewnol effeithiol ar waith.

Roedd polisi diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed ar waith ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cysylltiedig.

Roedd asesiadau risg cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal ac roedd unrhyw feysydd y nodwyd bod angen sylw arnynt yn cael eu hystyried.

Gofal diogel

Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Wrth fynd o amgylch adeilad y practis, gwelsom fod yr holl ardaloedd a oedd yn agored i gleifion yn lân ac yn glir rhag rhwystrau a oedd yn lleihau'r risg o faglu a chwympo.

Roedd asesiadau risg iechyd a diogelwch cyffredinol a mwy penodol yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Gwnaethom awgrymu y gellid gwella'r mesurau diogelwch yn yr adeilad drwy osod cloeon addas ar y drysau sy'n arwain i mewn i ardaloedd anghlinigol fel y swyddfa weinyddol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried gosod cloeon addas ar y drysau sy'n arwain i mewn i ardaloedd anghlinigol fel y swyddfa weinyddol.

Atal a rheoli heintiau

Ni leisiwyd unrhyw bryderon gan y cleifion ynghylch glendid y practis. Roedd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis yn lân iawn.

Cadarnhaodd y staff fod cyfarpar diogelu personol ar gael iddynt, megis menig a ffedogau plastig untro, er mwyn lleihau'r risg o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd trin clinigol a welsom yn lân.

Gwelsom fod cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau. Roedd cynwysyddion glanweithydd dwylo ar gael o gwmpas y practis hefyd. Nodwyd gennym fod y basnau golchi dwylo yn yr ystafelloedd ymgynghori yn fach, a bod yr arwyneb o gwmpas y sinc yn ystafell ymgynghori un wedi torri a bod angen cal arwyneb newydd.

Gwelsom fod gwastraff wedi'i rannu mewn cynwysyddion/bagiau lliw gwahanol er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei storio a'i waredu'n gywir. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel nes y gallai gael ei gasglu'n ddiogel. Roedd trefniant ffurfiol ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff.

Cawsom ein hysbysu fod mân lawdriniaethau yn cael eu cynnal yn y practis a bod yr offerynnau a ddefnyddir yn ystod y llawdriniaethau hyn ond yn cael eu defnyddio gyda chleifion unigol. Roedd hyn yn golygu nad oedd angen dihalogi offerynnau ac, felly, yn hybu camau i atal a rheoli heintiau yn effeithiol.

Roedd polisi rheoli heintiau clir a manwl ar waith.

Yr hyn sydd angen ei wella

Dylid ystyried gosod basnau golchi dwylo newydd yn yr ystafelloedd ymgynghori a newid yr arwyneb o amgylch y sinc yn un o'r ystafelloedd ymgynghori.

Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod y systemau ar gyfer rheoli meddyginiaethau yn gadarn ac yn ddiogel.

Fel y soniwyd yn flaenorol, roedd fferylllydd sy'n rhagnodi a thechnegydd fferyllfa ar gael yn y practis bron bob dydd. Ystyrid bod hon yn agwedd werthfawr iawn ar y gwasanaeth.

Gwelsom fod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal er mwyn sicrhau cysondeb wrth ragnodi rhwng yr holl glinigwyr.

Gwelsom fod y cleifion yn gallu cael presgripsiynau amlroddadwy drwy ffonio'r feddygfa yn bersonol, ar-lein, neu drwy ddefnyddio'r gwasanaethau presgripsiynau amlroddadwy a ddarperir gan y fferyllfa leol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n wynebu risg

Gwelsom fod polisiau amddiffyn plant a diogelu oedolion ar waith a bod siartiau llif a oedd yn cynnwys rhifau ffôn cyswllt lleol ar gyfer rhoi gwybod am achosion.

Roedd un o'r meddygon teulu yn gyfrifol am ddiogelu oedolion a phlant yn y practis ac roedd wedi cael hyfforddiant ar lefel briodol ar y pwnc. Gwelsom hefyd fod pob aelod arall o staff wedi cael hyfforddiant diogelu ar lefel briodol ar gyfer eu swyddi.

Caiff achosion diogelu oedolion a phlant eu nodi ar y system cofnodion electronig. Roedd systemau da ar waith hefyd ar gyfer nodi a thynnu sylw at y cleifion hynny yr ystyriwyd eu bod yn anodd eu cyrraedd, y gall fod angen help ychwanegol arnynt o ganlyniad i unigedd cymdeithasol, anghenion iechyd meddwl ac anabledau dysgu.

Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwelwyd bod cyffuriau ac offer argyfwng a oedd yn cael eu cadw yn y practis yn cael eu storio'n briodol fel ei bod yn hawdd cael gafael arnynt mewn argyfwng. Roedd gan y practis system ar gyfer dangos bod archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal.

Roedd profion rheolaidd yn cael eu cynnal ar ddyfeisiau trydanol cludadwy.

Gofal effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd gan y practis drefniadau addas i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau arwyddocaol. Roedd

digwyddiadau pwysig yn cael eu cofnodi a'u trafod yng nghyfarfodydd y meddygon teulu. Rydym yn argymhell y dylai'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau pwysig gael ei rannu â'r holl staff ac nid â'r staff clinigol yn unig, lle y bo hynny'n briodol.

Yr hyn sydd angen ei wella

Lle y bo'n briodol, dylai'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau pwysig gael ei rannu â'r holl staff a gyflogir yn y practis.

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau llywodraethu gwybodaeth clir ar waith. Roedd yr aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn gwybod sut i gael gafael ar y wybodaeth hon.

Roedd digon o le storio ar gael ar gyfer cofnodion y cleifion, gyda chofnodion papur wedi'u harchifo'n cael eu storio'n ddiogel oddi ar y safle.

Cadw cofnodion

Gwnaethom archwilio sampl o gofnodion cleifion a gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw'n dda. Roedd y nodiadau'n cynnwys digon o fanylion am ymgynghoriadau rhwng y staff clinigol a'r cleifion ac roedd modd gweld canlyniad ymgynghoriadau a chynllun gofal y claf.

Gwelsom fod prosesau digonol ar waith i reoli, archwilio ac adolygu cofnodion.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Ystyriwyd sut mae'r gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn helpu i ddarparu gofal diogel ac effeithiol. Ystyriwyd hefyd sut mae'r gwasanaethau yn adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn y Safonau Iechyd a Gofal.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf a ddywedodd wrthym eu bod yn cael cefnogaeth dda gan gydweithwyr yn y practis.

Gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith a bod archwiliadau cefndirol yn cael eu cynnal, fel y bo angen, cyn cyflogi staff newydd.

Roedd systemau archwilio clinigol a chyffredinol ar waith a oedd yn caniatáu i'r staff fyfyrion a gwneud newidiadau a gwelliannau i'w hymarfer.

Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl. Roedd cefnogaeth dda yn cael ei rhoi gan y meddyg teulu arweiniol a rheolwr y practis.

Siaradodd y staff yn gadarnhaol am yr amgylchedd gwaith gan ddweud wrthym eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu parchu ac yn eu cefnogi.

Roedd polisi chwythu'r chwiban ar gael a dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo y gallant godi pryderon ag uwch aelodau o'r staff.

Roedd gan y staff fynediad at yr holl bolisiâu a gweithdrefnau perthnasol i'w llywio yn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Roedd y staff a oedd yn gweithio yn y practis yn aml yn cyflawni dwy rôl ac yn gweithio'n hyblyg. Roedd hyn yn golygu y gallai'r staff weithio ar ran ei gilydd yn ystod absenoldebau, gan leihau'r risg o darfu ar wasanaethau i'r cleifion.

Roedd diwylliant agored a chynhwysol yn y practis gyda thystiolaeth o gyfathrebu anffurfiol rheolaidd rhwng y staff.

Roedd cynllun datblygu practis ar waith. Roedd yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau'n rheolaidd.

Roedd y practis yn rhan o grŵp clwstwr lleol. Dywedwyd bod y practis yn ymgysylltu'n dda iawn â'r grŵp clwstwr gydag un o'r meddygon teulu a rheolwr y practis yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr yn rheolaidd.

Staff ac adnoddau

Y Gweithlu

Wrth drafod â'r staff ac adolygu sampl o gofnodion staff, gwelwyd bod ganddynt y sgiliau a'r wybodaeth gywir, ar y cyfan, i gyflawni eu rolau penodol o fewn y practis.

Cawsom wybodaeth am hyfforddiant gorfodol a oedd yn dangos bod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau a'u cyfrifoldebau ac roeddent wedi dweud eu bod yn hapus yn eu rolau. Cadarnhaodd yr holl aelodau o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Gwelsom fod arfarniadau unigol yn cael eu cynnal bob blwyddyn.

Gwelsom fod proses recriwtio staff ffurfiol ar waith a bod archwiliadau cefndirol yn cael eu cynnal, fel y bo angen, cyn cyflogi staff newydd.

4. Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgfyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir pryd a sut yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr eir i'r afael â'r canfyddiadau a nodwyd.

O ganlyniad i'r canfyddiadau o'r arolygiad hwn dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan eir i'r afael â'r rhain.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

5. Sut rydym yn arolygu practisau meddygon teulu

Fel arfer, rhoddir rhybudd ar gyfer arolygiadau o bractisau meddygon teulu. Bydd practisau meddygon teulu yn cael hyd at 12 wythnos o rybudd am arolygiad. Mae hyn er mwyn iddynt allu gwneud trefniadau i sicrhau bod y practis yn rhedeg fel arfer, a bod yr arolygiad yn tarfu cyn lleied â phosibl ar y cleifion.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol ac ar lefel strategol.

Rydym yn edrych ar y ffordd y mae practisau meddygon teulu yn bodloni [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#). Rydym yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill fel y bo'n gymwys.

Mae'r arolygiadau hyn yn rhoi cipolwg ar y safonau gofal o fewn practisau meddygon teulu.

Ceir manylion pellach am y ffordd y mae AGIC yn arolygu [practisau meddygon teulu](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut y cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon roedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella uniongyrchol

Gwasanaeth: Meddygfa Bae Cinmel

Dyddiad arolygu: 25 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella uniongyrchol gan ddweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella'n uniongyrchol	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â sicrwydd roedd angen mynd i'r afael â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: Meddygfa Bae Cinmel

Dyddiad arolygu: 25 Medi 2018

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf				
Dylid ystyried enwebu aelod o staff yn Hyrwyddwr Gofalwyr.	1.1 Hybu, diogelu a gwella iechyd	Trafodwyd y pwynt hwn gyda'r tîm cyfan yn y cyfarfod Amser Gwarchodedig yn fuan ar ôl yr arolygiad (27.9.18) a gwahoddwyd y meddygon/nyrsys/staff i ystyried p'un a hoffent ymgymryd â'r rôl hon o fewn y practis. Caiff hyn ei drafod ymhellach yn y cyfarfod Amser Gwarchodedig nesaf. Mae'r gwasanaeth Cynnal Gofalwyr yn cynnal stondin yn rheolaidd yn y practis a bydd yma nesaf ar 13 Tachwedd, a fydd yn gyfle i'r aelodau o'r staff sydd â diddordeb i	Rheolwr y Practis	6 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		siarad â'r tîm am y rôl. Mae cynrychiolydd y gwasanaeth Cynnal Gofalwyr wedi cael gwybod yr hoffai'r staff siarad â hi bryd hynny.		
Dylid gwella gwefan y practis drwy gynnwys gwybodaeth ychwanegol am reoli cyflyrau hirdymor, a chynnig cyngor i'r cleifion ar eu salwch a'u cyfeirio at adnoddau a sefydliadau eraill sydd ar gael i'w helpu.	4.2 Gwybodaeth ar gyfer Cleifion	Rydym wedi dechrau ymchwilio i gwmnïau a allai gymryd cyfrifoldeb am ddarparu'r wefan, i gynnwys gwybodaeth ar gyfer cleifion am gadw'n iach, gwybodaeth am reoli clefydau cronig, dolenni i adnoddau eraill a dolenni i gyfieithiadau o'r wybodaeth ar y wefan. Daw ein contract presennol i ben ganol mis Tachwedd, felly byddem yn bwriadu sicrhau bod y wefan newydd yn barod erbyn diwedd mis Awst 2019.	Rheolwr y Practis	10 mis
Dylid cymryd camau i sicrhau bod taflenni gwybodaeth i gleifion a phosteri ar gael yn ddwyieithog, yn Gymraeg ac yn Saesneg, lle y bo'n bosibl.	3.2 Cyfathrebu'n effeithiol	Mae cyllid clwstwr wedi cael ei sicrhau ar gyfer prynu sgrin deledu ar gyfer yr ystafell aros (mae gweinyddwr y tîm clwstwr yn y broses o brynu'r offer ar hyn o bryd). Bydd hyn yn ein galluogi i ddefnyddio'r wybodaeth ddwyieithog a ddarperir yn electronig gan y Bwrdd Iechyd a grwpiau cysylltiedig. Yn y		9 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cyfamser, byddwn yn parhau i archebu ac arddangos taflenni a phosteri dwyieithog pan fyddant ar gael.		
Dylid ystyried darparu dolen glywed yn y practis er mwyn helpu'r cleifion hynny sydd ag anawsterau clywed i gyfathrebu.		Rydym wedi cysylltu ag Action on Hearing Loss i drefnu archwiliad o'r safle a chael cyngor ar ddolenni sain priodol ar gyfer yr ystafell aros a'r ystafelloedd ymgynghori. Yn dibynnu ar y costau, gallai hyn fod yn addas ar gyfer arian grant gan y Bwrdd Iechyd ac, os felly, byddwn yn gwneud cais am gyllid i helpu gyda hyn.	Rheolwr y Practis	12 mis
Dylid ystyried ymestyn cyfleuster Fy Iechyd Ar-lein er mwyn galluogi'r cleifion i drefnu apwyntiadau'n electronig.	5.1 Mynediad amserol	Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod nesaf y meddygon (mis Tachwedd) ac yna gyda'r holl staff yn y cyfarfod amser gwarchoddedig dilynol (mis Rhagfyr). Wedyn, cynhelir arolwg syml o'r cleifion dros gyfnod o rai wythnosau (mis Ionawr/mis Chwefror 2019) er mwyn casglu eu barn ar y mater hwn. Ar hyn o bryd, mae 1578 o'n cleifion wedi'u cofrestru i ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein, sef 22%, felly mae'n bwysig sicrhau na	Rheolwr y Practis	9 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wahaniaethir yn erbyn y 78% sy'n weddill am na allant drefnu apwyntiadau'n electronig. Rydym yn parhau i hyrwyddo Fy Iechyd Ar-lein ac annog y cleifion i gofrestru ar ei gyfer.		
Fel y nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf, dylai'r practis gysylltu â'r bwrdd iechyd unwaith eto i gytuno ar ateb hirdymor i'r broblem ynglŷn â'r ffaith bod yr amgylchedd presennol yn anaddas, a hwyluso'r ateb hwnnw, o ystyried y ffaith bod cynifer o gleifion a mwy o alw am y gwasanaeth.	6.1 Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth	Mewn cyfarfodydd blaenorol â thîm Ystadau'r Bwrdd Iechyd (mis Chwefror 2018), daethpwyd i'r casgliad nad oes cyfleuster i ymestyn y safle presennol mewn unrhyw ffordd. Cafodd y practis ei hysbysu gan y tîm Ystadau nad oes cyllid ar gael ar hyn o bryd i allu ystyried symud i adeilad newydd nac i safle arall sydd wedi'i adnewyddu. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Thîm Contractio'r Bwrdd Iechyd (mis Hydref 2018) lle y cafodd y safle ei drafod ymhellach. Rhoddodd y Tîm Contractio sicrwydd i'r practis, er gwaethaf diffyg cyllid ar hyn o bryd, ei fod yn llunio achos busnes ar gyfer safle newydd o hyd. Mae cyfarfod pellach yn cael ei drefnu rhwng y practis a'r timau Contractio ac Ystadau gyda'i gilydd yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf.	Rheolwr y Practis	9 mis ar gyfer cyfarfodydd

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dylid ystyried gosod cadeiriau newydd yn yr ardal aros.		Cyflwynwyd cais i'r Bwrdd Iechyd, fel rhan o'r cais am grant ar gyfer 2018-19, am gyllid ar gyfer amrywiaeth o gadeiriau o wahanol uchder/lled/steil. Yn anffodus, gwrthodwyd y cais, ond caiff cais pellach ei gyflwyno yn ystod y cyfnod nesaf ar gyfer gwneud cais am grant.	Rheolwr y Practis	18 mis
Yn ystod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol, dylid ystyried troi'r ddau doiled presennol i gleifion yn un toiled mawr â mynediad i bobl anabl.		Caiff y gwelliant hwn ei ychwanegu at yr agenda i'w thrafod yng nghyfarfod y meddygon a bydd y practis yn cysylltu ag o leiaf dri gweithiwr proffesiynol i ofyn am eu barn ac am amcanbrisiau ar gyfer y gwaith dan sylw. Os yw'n briodol, bydd cais am gyllid gan y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod nesaf ar gyfer gwneud cais am grant.	Rheolwr y Practis	18 mis
Yn ystod unrhyw waith adnewyddu yn y dyfodol, dylid ystyried gostwng rhan o ddesg y dderbynfa er mwyn ei gwneud hi'n haws i ddefnyddwyr cadair olwyn ei defnyddio.		Caiff y gwelliant hwn ei ychwanegu at yr agenda i'w thrafod yng nghyfarfod y meddygon a bydd y practis yn cysylltu ag o leiaf dri gweithiwr proffesiynol i ofyn am eu barn ac am amcanbrisiau ar gyfer y gwaith dan sylw. Os yw'n briodol, bydd	Rheolwr y Practis	18 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		cais am gyllid gan y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod nesaf ar gyfer gwneud cais am grant.		
Darparu gofal diogel ac effeithiol				
Dylid ystyried gosod cleon addas ar y drysau sy'n arwain i mewn i ardaloedd anghlinigol fel y swyddfa weinyddol.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Caiff hyn ei drafod yng nghyfarfod llawn nesaf y staff yn ystod Amser Gwarchodedig er mwyn canfod sawl aelod o'r staff sydd o'r farn y byddai hyn yn gweithio a pha opsiynau fyddai ar gael, ac er mwyn ystyried y risgiau/buddiannau.	Rheolwr y Practis	2 fis
Dylid ystyried gosod basnau golchi dwylo newydd yn yr ystafelloedd ymgynghori a newid yr arwyneb o amgylch y sinc yn un o'r ystafelloedd ymgynghori.	2.4 Atal a Rheoli Heintiau a Dadhalogi	Mae'r practis wrthi'n ceisio amcanbrisiau ar hyn o bryd ar gyfer gosod sinc, tapiau a chownter newydd yn Ystafell 1 lle mae'r wyneb gweithio wedi codi oherwydd difrod dŵr, gan fod angen gwneud hyn cyn bo hir. Bydd y practis yn ceisio barn ac amcanbrisiau ar gyfer gosod basnau golchi dwylo newydd yn lle'r holl fasnau eraill dros y 12 mis nesaf er mwyn ystyried y gwaith a'r gost sydd ynghlwm	Rheolwr y Practis	2 fis 18 mis

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon	Cam gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
		wrtho.		
Lle y bo'n briodol, dylai'r hyn a ddysgir o ddigwyddiadau pwysig gael ei rannu â'r holl staff a gyflogir yn y practis.	3.1 Gofal Diogel a Chlinigol Effeithiol	Caiff Digwyddiadau Pwysig eu trafod mewn cyfarfodydd clinigol neu weinyddol ar hyn o bryd. Bydd adroddiadau ar ddigwyddiadau pwysig bellach yn cael eu cynnwys i'w trafod yng nghyfarfodydd y tîm cyfan lle y bo'n briodol. Bydd y cyfle nesaf ym mis Rhagfyr 2018		2 fis ac yn barhaus
Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth				
Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.				

Mae'n rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sy'n bennaf cyfrifol ac atebol am sicrhau y caiff y cynllun gwella ei weithredu.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): **JENIFER WHYLER**

Teitl swydd: **Rheolwr y Practis**

Dyddiad: **5 Tachwedd 2018**